Bwletin Plant a Phobl Ifanc

Newyddlen Trydydd Sector Gwynedd

Rhifyn Hydref 2010

Mantell Gwynedd

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Llais Plant a Phobl Ifanc—Hawliau Ni

Mae dogfen wedi'w greu sy'n cynnwys barn plant a phobl ifanc Gwynedd am y gwasanaeth sydd ar gael iddynt ac sydd hefyd yn dathlu'r gwaith da o fewn y maes cyfranogi. Gofynnir y Grŵp Strategol Llais Plant a Phobl Ifanc Gwynedd am fwy o fewnbwn i'r ddogfen, yn ewnwedig gan asiantaethau'r trydydd sector. Mae'r negeseuon wedi eu diddoli yn ôl Hawliau Ni ac o dan bob hawl unigol nodir y negeseuon sydd wedi codi gan blant a phobl ifanc Gwynedd.

Os hoffech dderbyn copi o'r ddogfen er mwyn cynnwys mewnbwn eich plant neu bobl ifanc, cysylltwch â mi, ar yn ail, bydd ar gael drwy dudalen plant a phobl ifanc ar wefan Mantell.

Cynhadledd Tlodi Plant yng Ngwynedd

Cynhelir gynhadledd Tlodi Plant yng Ngwynedd ar **8fed Dachwedd 2010 yn Nhrawsfynydd**. Prif nod y gynhadledd yw rhoi'r cyfle I gyn-rychiolwyr o wahanol grwpiau, mudiadau ac asiantaethau sy'n gweithredu o fewn y maes plant a phobl ifanc ac o fewn meysydd eraill megis yr economi, tai ac iechyd I glywed am falenoriaethau Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â thlodi plant ac I ddysgu mwy am rai o'r cynlluniau a rhaglenni sydd ar waith yng Ngwynedd ar hyn o bryd I daclo tlodi plant. Bydd cyfle hefyd I drafod blaenoriaethau I'w cynnwys yn y Cynllun Plant a Phobl Ifanc nesaf o safbwynt mynd I'r afael â thlodi plant yng Ngwynedd.

2010 European Year for Combating Poverty and Social Exclusion

I fynychu'r gynhadledd, cysylltwch â mi ar gyfer derbyn y bonyn ymateb.

Dyddiad cau : 1af Dachwedd 2010

Cost: Am ddim (**llefydd wedi eu cyfyngu i 100 o**

Amgueddfa a Phobl Ifanc

Amgueddfa Lechi Cymru,
Llanberis,
2il Ragfyr, 10-3pm

national slate museum amgueddfa lechi cymru

Hyfforddiant undydd ar gyfer gweithwyr / mudiadau sy'n gweithio â phobl ifanc er mwyn darganfod ffyrdd newydd o ddefnyddio treftadaeth a diwylliant fel thema ar gyfer gwaith prosiect gyda pobl ifanc.
Bydd mynychwyr i'r hyfforddiant yn cael y cyfle i elw sgiliau gweithio gyda pobl ifanc, darganfod ffyrdd newydd o weithio a phobl ifanc, darganfod cyfleodd ariannol, readru gwybodaeth ac ymarferion da, darganfod partneriaethau,cefnogaeth a c ysbrydoliaeth.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â :
Alun.jones@museumwales.ac.uk

Ffi: £20 Aelodau Gem, £25 di-aelod gan gynnwys te/coffi a chinio.

GWASANAETH LLOGI CYFRIFIADURON - RHAD AC AM DDIM!

Bu sôn wrthych yn ddiweddar am wasanaeth llogi offer sy'n cael ei gynnig trwy Mantell Gwynedd i fudiadau'r Trydydd Sector sy'n gweithio yn y maes plant a phobl ifanc yng Ngwynedd.

Bu i ni ddiogelu swm o arian cyllid cyfalaf gwasanaethau ieuenctid y Cynulliad i brynnu amrywiaeth o offer cyfrifiadurol sydd ar gael i'w llogi allan i fudiadau gwirfoddol y sir ar gyfer eu defnyddio hefo pobl ifanc i gynnal gweithgareddau e.e. gweithdai ffotograffig, hyfforddiant, grwpiau ffocws, cystadlaethau ayb. Y gobaith yw y bydd yr offer yn gwella cyflwyniad a chyswllt y gwasanaethau ieuenctid gwirfoddol â'r bobl ifanc hynny maent yn eu cefnogi.

Cofiwch felly fod cyfle i chi **fanteisio** ar y gwasanaeth, sy'n cael ei gynnig yn **rhad ac am** ddim. Mae'r offer o safon uchel iawn ac yn cynnwys: gliniaduron, argraffwyr wi-fi (amlbwrpas), un taflunydd cyfrifiadurol, camerau fideo a chamerau digidol!

Ymwybyddiaeth Meningitis ar yr iPhone

Ceir 'app' newydd ar gyfer yr iPhone sy'n egluro arwyddion meningitis a all achub bywyd oedolion,plant neu berson ifanc. Mae'r 'app', sydd am ddim, yn eich galluogi i ddysgu popeth ynghylch yr afiechyd. Rhoddir cyfarwyddiadau ar beth i'w wneud, sut i gael help ond yn oll bwysig dangosir arwyddion a symptomau o'r afiechyd. Cafwyd ei greu a'i ddylunio gan yr elusen hir sefydledig y Meningitis Trust sydd mwyaf profiadol nac unrhyw elusen meningitis arall yn y D.U am gefnogi pobl a bywydau sydd wedi eu dinistrio gan yr afiechyd sydd hefyd yn codi ymwybyddiaeth o'r afiechyd.

Ers sefydlu'r elusen ym 1986, mae dros 20 miliwn o gardiau symptomau meningitis wedi cael eu dosbarthu. Fe fydd yr 'app' ymwybyddiaeth newydd yma ar gyfer yr iPhone yn greadigaeth diweddaraf i gyrraedd mwy o bobl a chodi

Dywed Sue Davie, Prif Weithredwr yr elusen "*With millions of iPhone users throughout the UK, we want to reach even more people and this is why I am delighted that the world's first meningitis app for the iPhone is available to download for free ...I am urging anyone who has an iPhone, iPod Touch or an iPad to download it today".*

Nodyn Dyddiadur

Wythnos Ni

Wythnos Plant a Phobl Ifanc Gwynedd

Tachwedd 8-14 2010

Yn dilyn llwyddiant Wythnos Ni, sef Wythnos Plant a Phobl Ifanc Gwynedd y llynedd, mae Partneriaeth Strategol Plant a Phobl Ifanc Gwynedd wedi penderfynu cynnal Wythnos Plant a Phobl Ifanc eto eleni rhwng **08 a 14 Tachwedd 2010**.

Yn ystod yr wythnos mi fydd llwyth o ddigwyddiadau a gweithgareddau wedi eu trefnu ym mhob cwr o Wynedd. I bob diwrnod yn ystod Wythnos Ni 2010 mae cyfres o themâu gwahanol; gweler y tabl isod i weld y themâu.

Dyddiad	Thema
Dydd Llun, 08 Tachwedd 2010	Tlodi Plant
Dydd Mawrth, 09 Tachwedd 2010	Iaith a Diwylliant
Dydd Mercher, 10 Tachwedd 2010	Diwrnod Gweithgareddau Pobl Ifanc
Dydd Iau, 11 Tachwedd 2010	Hawliau Plant a Phobl Ifanc
Dydd Gwener, 12 Tachwedd 2010	Dathlu Llwyddiant Pobl Ifanc
Dydd Sadwrn, 13 Tachwedd 2010	Diwrnod i'r Teulu
Dydd Sul, 14 Tachwedd 2010	Diwrnod i'r Teulu

Am fwy o wybodaeth am yr wythnos, ewch i'r wefan : **www.gwynedd-ni.org.uk**

Rwyt yn bwysig!

Mae'r bwrdd diogelu Plant Gwynedd ac Ynys Mon wedi comisiynnu llawlyfr newydd ac unigryw o'i fath ar gyfer pobl ifanc Gwynedd ac Ynys Môn.

Bu cymaint o bwyslais ymgynghori â phobl ifanc lleol i'w gynhyrchiad o ran iaith a therminoleg ac hyd yn oed dyluniad y llyfryn. Mae'n lyfryn unigryw o'r herwydd i'r canolbwynt arbennig ar pobl ifanc angen eu diogelu.



Rhwydwaith Plant a Phobl Ifanc

Nodyn Dyddiadur

Byddaf yn anfon gwahoddiad cynnes i chi yn fuan i'r rhwydwaith plant a phobl ifanc Gwynedd nesaf.

Cynhleir y cyfarfod ar y **5ed Dachwedd yng Nghanolfan Cymunedol Talysarn.** Rwyf yn y broses o lunio'r agenda ar hyn o bryd ac fe fydd lluniaeth ar gael ar y diwrnod hefyd.

Edrychaf ymlaen Iich cyfarfod am y tro cyntaf yn fy rôl newydd fel hwylusydd plant a phobl ifanc!

Am ragor o wybodaeth ynghylch unrhyw eitem neu os hoffech gynnwys eitem, cysylltwch ag:
Carwyn Humphreys (Hwylusydd Plant a phobl Ifanc) e-bost: **carwynhumphreys@mantellgwynedd.com**
01286 672 626
Mantell Gwynedd, 23-25 Y Bont Bridd, CAERNARFON ,Gwynedd, LL55 1AB